# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**2024 dsc 4**

**RHAN 5**

ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y DDEDDF ETC. A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Cyffredinol*

## 20 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Ddeddf hon, o ganlyniad iddi neu er mwyn rhoi effaith lawn iddi, cânt, drwy reoliadau, wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) diwygio, diddymu, dirymu neu addasu'r Ddeddf hon neu unrhyw ddeddfiad arall (pa bryd bynnag y caiff ei basio neu y'i gwneir).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 mewn grym ar 25.6.2024, gweler **a. 25(1)(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Adran 20.